Disgrifiad ychwanegol o gymunedau

Gorwedda Biosffer Dyfi o fewn ffiniau gweinyddol tri Awdurdod lleol – **Ceredigion**, **Gwynedd** a **Phowys** ac mae'n cynnwys rhan o ardal **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**.

Mae ardal y Biosffer yn ardal amrywiol dros ben, yn amrywio o ardaloedd amaethyddol traddodiadol i ardaloedd twristiaeth; o gymunedau gwledig traddodiadol i gymunedau sydd wedi tyfu'n gyflym dros yr hanner can mlynedd diwethaf.

1 Ceredigion

Mae rhan ddeheuol Biosffer Dyfi yn gorwedd o fewn sir weinyddol **Ceredigion**, sydd wedi bod yn uned gydnabyddedig ers y bumed ganrif. Ffurfiwyd y sir, a arferai gael ei galw'n Sir Aberteifi, gan Ddeddf 1536. Mabwysiadwyd yr enw hanesyddol Ceredigion gan y Cyngor Dosbarth rhwng 1974 a 1996 ac yna gan y Cyngor Sir, yr awdurdod unedol newydd, ym 1996. Gorchuddia ardal o 180,500 hectar (696 milltir sgwâr) ac mae ganddi boblogaeth o 78,000.

Mae'r sir arfordirol hon, sydd wedi'i lleoli yng nghanol Bae Ceredigion, yn ymestyn o Eglwys-fach yn y gogledd i Aberteifi yn y de. Y prif drefi yw Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan, Tregaron, Llandysul ac Aberteifi.
Rhennir prif swyddfeydd y Cyngor rhwng Aberystwyth ac Aberaeron ond ceir swyddfeydd lleol ym mhob un o'r prif drefi.
Yn ôl cyfrifiad 1991 mae 59% o'r trigolion yn siaradwyr Cymraeg.
Mae dwy Brifysgol yng Ngheredigion, un yn Aberystwyth a'r llall yn Llanbedr Pont Steffan. Yn ogystal â hyn, mae Coleg Addysg Bellach yn y sir a system addysg ddwyieithog ar gael yn yr ysgolion.
Ceir tair Canolfan Celfyddydau yn y sir a hynny yn Aberystwyth, Felin-fach ac Aberteifi.
Mae Aberystwyth hefyd yn gartref i'r Llyfrgell Genedlaethol, Cyngor Llyfrau Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Yn wir, mae Sir Geredigion ac Aberystwyth yn arbennig yn ganolfan ddiwylliannol ac academaidd bwysig; yn un o gadarnleoedd yr Iaith Gymraeg ac yn hanfodol i dyfiant a ffyniant yr iaith yng Nghymru.

1.1 - Aberystwyth

Er nad yw wedi ei lleoli yn uniongyrchol yn nalgylch yr Afon Ddyfi, ni ellir anwybyddu dylanwad Aberystwyth ar y Biosffer; y mae'n ganolfan fasnachol a gweinyddol sefydledig ac yn gyrchfan dwristiaeth yn ei hunan. Mae gan Aberystwyth boblogaeth o tua 12,000 sy'n cael ei chwyddo'n sylweddol gan yr 8,000 o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n byw yn y dref. Rhoddir cryn barch i gyfleusterau ymchwil y Brifysgol.
Yn bwysicach na hynny, mae'r ffaith nad ydyw traeth Y Borth, sef craidd y Biosffer, yn ddim ond chwarter awr o Aberystwyth yn y car.

Y sector gyhoeddus ac addysg, yw prif gyflogwyr y dref, yn cael eu dilyn yn agos gan y sector gyfanwerthu, manwerthu ac atgyweirio. Chwaraea dwristiaeth, yn ogystal, ran fawr yn ei heconomi.

Mae nifer y myfyrwyr sy'n byw yn y dref yn gwyro rhywfaint ar y ffigurau a gasglwyd gan y cyfrifiad ynglŷn â'r gallu i siarad a deall yr Iaith Gymraeg. Dengys hyn mai dim ond 26% o'r boblogaeth sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith, tra mae dros 58% yn honni nad oes ganddynt unrhyw ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Mewn gwirionedd, byddai canran y boblogaeth frodorol sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn uwch.

Wedi datgan fod y boblogaeth o fyfyrwyr yn medru gwyro canlyniadau, mae ffigurau'r cyfrifiad yn dangos fod 55% o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru a 40% wedi eu geni yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 2.12% o'r boblogaeth yn enedigol o ddwyrain a gorllewin Ewrop, 0.61% yn enedigol o Affrica a 0.98% yn enedigol o Asia.

Y mae'n gyrchfan boblogaidd i bobl ddod am y diwrnod o Gymru ac o Loegr ac mae ar raglen llawer o deithiau bysus. Mae gan ardal Aberystwyth lety ar gyfer tua 14,000 o ymwelwyr rhwng y gwestai, lletyon hunanarlwyo a meysydd carafanio/gwersylla.

Sefydlwyd y dre dros saith can mlynedd yn ôl yn rhinwedd siarter a gyflwynwyd gan y Brenin Edward I. Mae'r pentref cyfagos, Llanbadarn Fawr, er hynny yn anheddiad llawer hŷn sydd â'i hanes yn fwy seiliedig ar ddiwylliant Cymreig cynhenid ac sydd yn sylfaen i ddatblygiad tref Aberystwyth.

Mae hanes amddiffynfeydd Aberystwyth yn profi fod gan y dref safle strategol o bwys. Ymysg y cynharaf ohonynt mae'r gaer urddasol o Oes yr Haearn sydd ar ben bryn Pen Dinas i'r de o'r dref. Yn ddiweddarach adeiladwyd y castell Normanaidd gan luoedd ymosodol i'r de o'r adfeilion sy'n bodoli. Mae'n debyg y byddai'r gaer wreiddiol wedi bod yn agosach i geg yr afon.
Adeiladwyd y castell diweddaraf yn y 12fed ganrif yn gyntaf ac fe barhaodd i fod yn gadarnle, ynghyd â chastell mawr arall Ceredigion yn nhref ddeheuol Aberteifi, tan y Rhyfel Cartref yn y 17eg ganrif. Yn ddiweddarach bu Castell Aberystwyth yn gartref i fathdy ar gyfer y gweithfeydd arian lleol o dan reolaeth brenhinwr nes yr ymosodwyd arno a'i rannol ddinistrio gan y Lluoedd Seneddol.

Datblygodd Aberystwyth yn eithaf diweddar i fod yn borthladd: roedd Aberteifi wedi hen sefydlu fel porthladd Prydeinig o bwys tra, yn y 16eg ganrif, disgrifiwyd Aberystwyth fel "a barred haven of no value". Gwasanaethwyd rhan ogleddol Ceredigion ar yr adeg honno trwy borthladd Aberdyfi, sef lleoliad tollty'r ardal, a hefyd borthladd pysgota llai'r Borth yr ochr arall i'r Ddyfi, a oedd ar yr adeg hon yn afon fordwyol am gryn bellter i mewn i'r tir. Yn hwyr yn y 18ef ganrif symudwyd y tolldy i Aberystwyth a arweiniodd i gynydd ym mhwysigrwydd Aberystwyth fel porthladd. Datblygodd yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif wrth i Aberystwyth ddod yn lleoliad adeiladu llongau ac yn borthladd cludiant prysur, yn cludo plwm a mwyn arian i dde Cymru ar gyfer mwyndoddi ac yn mewnforio deunyddiau megis coed o'r Baltig, Gwledydd Llychlyn a Chanada. Yn ystod y 19eg ganrif cymerodd porthladd Aberystwyth rôl newydd fel porthladd allfudo i'r byd newydd.

Gyda dyfodiad y rheilffordd ym 1864 a'r datblygiad mewn twristiaeth profodd y dref dwf newydd. Arweiniodd y cysylltiad gwell rhwng yr arfordir atyniadol ac ardaloedd diwydiannol de Cymru a Chanolbarth Lloegr at lewyrch economaidd newydd i'r dref.

Er i'r dref darddu o 'r bwriad i ddarostwng y Cymry, daeth Aberystwyth i fod yn gartref i rai o sefydliadau pwysicaf Cymru.
Sefydlwyd coleg cyntaf Prifysgol Cymru yn Aberystwyth a hefyd yr ysgol gynradd gyntaf i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Prifysgol Aberystwyth, a aeth yn annibynnol yn ddiweddar, erbyn hyn yn cynnwys Coleg Llyfrgellwyr Cymru a Sefydliad y Gwyddorau Gwledig.

Aberystwyth hefyd yw cartref Llyfrgell Genedlaethol Cymru, lle mae llawer o drysorau llenyddol Cymru a gwledydd Celtaidd eraill wedi eu cadw'n ddiogel. Un o'r rhain yw 'Llyfr Du Caerfyrddin', y llawysgrif Cymraeg hynaf sydd wedi goroesi. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd cadwyd rhai o drysorau mwyaf gwerthfawr Prydain yng nghelloedd tanddaearol y Llyfrgell Genedlaethol.

Dangosir cryn barch tuag at gyfleusterau ymchwil Coleg y Brifysgol Aberystwyth, lle mae poblogaeth ryngwladol eang ac amlddiwylliannol o fyfyrwyr. Mae Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) wedi'i leoli ar gyrion y dref, sydd yn enwog drwy'r byd am ei gyfraniad gwyddonol i dyfiant planhigion porthi, bioleg a geneteg planhigion, gwyddorau a maeth anifeiliaid, llaethyddiaeth organig, gwyddoniaeth pridd ac ecoleg amaethyddol.

Mae llawer mwy o sefydliadau cenedlaethol a mudiadau blaenllaw Cymru wedi'u lleoli yn Aberystwyth, yn cynnwys:

Urdd Gobaith Cymru	Canolfan ar gyfer Ymchwil Perfformio
Undeb Amaethwyr Cymru	Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru - UCAC	Cymdeithas y Dysgwyr - CYD
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Menter a Busnes
Cyngor Llyfrau Cymru	Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	

1.2 - Ward Y Borth

Gorchuddia Ward Y Borth tua 2549 hectar o dir ac mae'n cynnwys aneddiadau'r Borth, Borth Uchaf, Llandre, Dôl-y-bont, ac Ynyslas - sef ardal graidd y Biosffer.
Mae gan Ward Y Borth boblogaeth o 2258, a 972 o gartrefi a dwysedd poblogaeth o 0.89 (person yr Hectar). Y prif gyflogwyr yw'r sector gyhoeddus ac addysg, yn cael eu dilyn yn glos gan y sector gyfanwerthu, manwerthu ac atgyweirio. Ac er na ddengys yr ystadegau mae twristiaeth yn chwarae rhan fawr yn economi'r ward.
Mae 45% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn medru siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr Iaith Gymraeg a 47% heb unrhyw ddealltwriaeth o'r iaith.

Ganwyd 51% o'r boblogaeth yng Nghymru a 47% yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 1% o'r boblogaeth yn enedigol o orllewin neu ddwyrain Ewrop a 0.66% yn enedigol o Asia.

Mae'r Borth, Ynyslas a Chlarach yn gyrchfannau poblogaidd ar gyfer carafanwyr a gwersyllwyr. Mae rhai o wersylloedd uchaf eu gradd yng Nghymru i'w cael yn y cylch hwn.

Gradd Gymdeithasol Fras – Ward Y Borth

Gradd Gymdeithasol Fras – Ward Y Borth	**Personau**
Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	1,810
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	336
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	691
C2: Gweithwyr llaw medrus	271
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	247
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	265

Diwydiant Cyflogaeth – Ward Y Borth

Diwydiant Cyflogaeth – Ward Y Borth	**Personau**
Nifer y Bobl	937
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	49
B. Pysgota	0
C. Mwyngloddio a chwarela	3
CH. Cynhyrchu	52
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	6
DD. Adeiladu	68
	129
F. Gwestai a bwytai	108
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	31
G. Cyfryngu cyllidol	9
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	88
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	55
I. Addysg	146
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	118
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	75
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	0
N. Sefydliadau a chyrff alldiriogaethol	0

Cymunedau yn ward Y Borth

Y Borth

Pentref arfordirol mawr yw'r Borth sydd â thua 600 o gartrefi a phoblogaeth o 1200 (1991). Lleolir y pentref rhyw 11.3 km (7 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth ar y B4353 a'r B4575.
Mae gan Y Borth leoliad amlwg ar dafod o raean a chlogwyn ar gornel dde orllewinol Cors Fochno.

Golyga'r lleoliad hwn fod y pentref yn agored i lifogydd, nid yn unig o'r môr ond o Afon Leri sydd y tu ôl iddo ac mae hyn yn peri pryder i'r trigolion.
Rhwng pentref Y Borth a'r traeth y mae amddiffynfa enfawr rhag y môr, sy'n brwydro i weithredu'r swyddogaeth hon. Mae cynlluniau ar y gweill i wella'r amddiffynfeydd a hefyd mae ymchwil mewn bod i greu riff artiffisial.

Ymffrostia hen bentref pysgota'r Borth fod ganddo un o draethau hiraf a mwyaf euraid Ceredigion - yn ymestyn i Warchodfa Natur Cenedlaethol Dyfi gyda'i system dwyni tywod trawiadol.

Dywed hen chwedl Gymreig am gyfnod amser maith yn ôl cyn i ran o Gymru - o'r enw Cantre'r Gwaelod - ddiflannu o dan ddyfroedd Bae Ceredigion. Fel rhannau o'r Iseldiroedd, gwarchodwyd Cantre'r Gwaelod rhag cael ei lyncu gan y môr gan gyfres o forgloddiau ac argaeau. Un noson, cynhaliwyd gwledd yng Nghantre'r Gwaelod a bu Seithennyn, y gŵr oedd yn gyfrifol am warchod y tŵr y noson honno yn esgeulus a llifodd y môr dros yr amddiffynfeydd yn ddirybudd gan foddi tir Cantre'r Gwaelod. Dim ond chwedl? Ar rai adegau o'r flwyddyn pan fo'r llanw allan, gwelir boncyffion o hen goedwigoedd yn dod i'r amlwg ar draeth Y Borth, - boncyffion a fu'n cuddio o dan y tywod euraid am flynyddoedd maith....
Ar wahân i wrando ar y cyfoeth o chwedlau lleol, mae digonedd o bethau i'w gweld a'u gwneud yn Y Borth a'r ardal o'i gwmpas.

Y diwydiant twristiaeth yw sylfaen economi'r Borth i raddau helaeth, - y prif ased yw'r 6.4 km (4 milltir) o draeth tywodlyd, euraid a enillodd wobrau, sy'n ymestyn o glogwyni Borth Uchaf hyd at aber yr Afon Ddyfi yn Ynyslas. Mae'r dref yn denu ymwelwyr o nifer o wahanol rannau o Brydain, yn enwedig o Ganolbarth Lloegr a'r Gogledd Orllewin. Mae'r mwyafrif o'r ymwelwyr hyn yn lletya ym meysydd carafannau sefydlog Y Borth, sydd â lle i dros 6,000 o bobl.

Gall y galw am adnoddau naturiol arwain at wrthdaro rhwng defnyddwyr. Apelia'r traeth hir a'r prifwyntoedd at anghenion y garfan gynyddol o bobl sy'n ymddiddori mewn chwaraeon ar ddŵr a thir dan yriant y gwynt megis 'bad hwylio tirol' a 'syrffio barcud'. Arweinia mynediad rhwydd at y môr bryder ynglŷn â Badau Dŵr Personol (PWC neu feiciau dŵr) a chychod tebyg. Gall y gweithgareddau hyn olygu mewnbwn economaidd sylweddol i'r ardal, ond mae angen rheoli gweithredol i atal gwrthdaro gyda'r defnydd mwy traddodiadol o'r traeth a'r môr.

Mae gan Y Borth ystod o wasanaethau a chyfleusterau – mae gorsaf reilffordd (rhed rheilffordd Aberystwyth - Amwythig i'r dwyrain o Borth) yn gryn fantais i'r pentref, hostel ieuenctid, ysgol gynradd, meddygfa, pedwar addoldy, cae chwarae mawr a chlwb golff.

Tymhorol yw llawer o wasanaethau a chyfleusterau'r Borth, yn arlwyo ar gyfer y farchnad dwristiaeth. Yn y tymor tawel erys nifer ddigonol o siopau, tafarndai a modurdai ar agor i wasanaethu'r trigolion lleol.

Mae'r amgylchedd adeiledig yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y dref ond mae gwedd ddirywiedig ar rannau o'r Borth. Er bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i ardaloedd o'r dref, byddai ardaloedd eraill yn elwa'n arw o welliannau amgylcheddol.

Ystyrir Y Borth gan ei drigolion yn gymuned gosmopolitan fywiog. Y rhinweddau sy'n gwneud Y Borth yn lle arbennig yw'r traeth, twyni tywod, clogwyni, cwrs golff ac i raddau llai y gors. Yn gymdeithasol y bobl, y neuadd, y tafarndai, y carnifal a bywiogrwydd y clybiau lleol a sefydliadau gwirfoddol megis y Bad Achub sy'n gwneud Y Borth yn lle arbennig.

Oherwydd y boblogaeth eithaf sylweddol a'i agosrwydd at Aberystwyth, bydd Y Borth yn parhau i fod yn ganolbwynt i ddatblygiadau preswyl, ond ni ddylai hyn ddigwydd ar yr un raddfa a'r pymtheng mlynedd ddiwethaf.

Ynys Las

Mae pentref Ynyslas wedi'i leoli 1.6 km (1 filltir) i'r gogledd o'r Borth, rhwng y cwrs golff a Chors Fochno, ac felly dyma'r gymuned agosaf i graidd y Biosffer.

Mae Ynyslas yn meddu ar amgylchedd naturiol o ansawdd uchel. I'r gogledd a'r dwyrain o'r pentref mae ardal aber y Ddyfi a Chors Fochno wedi cael ei dynodi yn warchodfa natur genedlaethol a elwir yn Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi a Chors Fochno. Rheolir y twyni tywod a'r traeth sydd yn rhan o'r warchodfa hon gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, sydd wedi adeiladu canolfan ddehongli yn y twyni i gyflwyno gwybodaeth i bobl am yr atynfa unigryw hon. Dynodwyd aber y Ddyfi hefyd yn "Wlyptir o Bwys Rhyngwladol" o dan gytundeb RAMSAR. I'r de o'r pentref mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Yr Hen Afon Leri wedi'i lleoli.

Datblygwyd tai mewn llinell gyda chadwyn o dai sengl, tai unllawr a chalets yn rhedeg o'r gogledd i'r de. Tai gwyliau yn unig yw rhai o'r tai hyn. Yn agos i'r pentref y mae dau faes carafannau sefydlog, yn ogystal â meysydd ar gyfer carafannau teithiol a phebyll.

Nid oes gan Ynyslas lawer o wasanaethau a chyfleusterau. Ceir rhai cyfleusterau yn y Clwb Golff a'r meysydd carafannau. Dim ond rhan o'r pentref sydd wedi'i gysylltu â'r brif garthffosiaeth.

Fel Y Borth, mae rhannau o Ynyslas yn agored i lifogydd.

Llandre

Anheddiad llinellol yw Llandre o tua 170 o dai wedi'i leoli 6.5 km (4 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth ar y B4353 i'r Borth.

Datblygodd y pentref o gwmpas Eglwys Sant Mihangel i'r gorllewin o reilffordd Aberystwyth - Amwythig. Ond bellach mae'r rhan helaethaf o'r pentref i'r dwyrain o'r rheilffordd ar hyd ffordd Y Borth a Lôn-Glanfred lle bu'r rhan helaethaf o'r datblygu diweddar.

Mae dau o henebion ger y pentref, sef Castell Gwallter i'r gorllewin a Chaer Pwll Glas i'r dwyrain.

Ychydig o gyfleusterau sydd yn Llandre i gymharu â'i faint. Mae yna ddau addoldy, ysgol feithrin, parc chwarae plant a chyrtiau tenis ac fe gaewyd y siop yn ddiweddar. Fodd bynnag mae ysgol a modurdy Rhydypennau yn agos iawn i ben dwyreiniol y pentref sy'n gwasanaethu cymunedau Llandre a Bow Street. Yn yr un modd y mae Tafarn Rhydypennau a Gwesty Llety Ceiro yn gwasanaethu'r ddwy gymuned.

Dôl-y-bont

Pentref bach deniadol o 35 cartref yw Dôl-y-bont, sydd wedi'i leoli ar fin Ardal Tirwedd Arbennig Arfordir Ceredigion oddi ar y B4354, 9.7 km (6 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth.
Lleolir y pentref y ddwy ochr i'r Afon Leri mewn dyffryn eithaf serth. Rhed y pentref mewn llinell a'r lan ogleddol a'r lan ddeheuol yn cael eu cysylltu gan bont Dôl-y-bont, pont gefngrwm o'r 18fed ganrif sy'n adeilad rhestredig.
Mae'r pentref yn gymysgedd o dai newydd a thraddodiadol, lle mae'r cartrefi newydd wedi llenwi'r bylchau rhwng yr hen dai ac ar yr ymylon. Mae yna un addoldy a maes carafannau bychan. Ni cheir yma gyfleusterau eraill. Dymuna trigolion y gymuned weld parc chwarae plant yn cael ei osod oddi mewn i'r pentref.

Mae rhannau o'r pentref yn agored i lifogydd.

1.3 - Ward Ceulanamaesmawr

Ward Ceulanamaesmawr yw ward fwyaf gogleddol y sir. Mae'n gorchuddio tua 13,638 hectar o dir ac yn cynnwys aneddiadau **Eglwys Fach, Ffwrnais, Tre'r ddôl, Tre Taliesin, Talybont a Bontgoch.**

Mae gan ward Ceulanamaesmawr boblogaeth o 1917 ac 820 o gartrefi gyda dwysedd poblogaeth isel iawn o 0.14 (person yr hectar). Y prif gyflogwyr yw'r sector gyhoeddus ac addysg yn cael eu dilyn yn agos gan y sector gyfanwerthu, mân werthu ac atgyweirio.
Mae 65% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn medru siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr Iaith Gymraeg a 35% heb unrhyw ddealltwriaeth o'r iaith.

Ganwyd 58% o'r boblogaeth yng Nghymru a 39% yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 1.25% o'r boblogaeth yn enedigol o orllewin a dwyrain Ewrop a 0.94% yn enedigol o Asia.

Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	1,545
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	406
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	458
C2: Gweithwyr llaw medrus	260
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	213
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	208

Diwydiant Cyflogaeth

Diwydiant Cyflogaeth	**Ceulanamaesmawr (Personau)**
Nifer y Bobl	898
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	70
B. Pysgota	0
C. Mwyngloddio a chwarela	0
CH. Cynhyrchu	59
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	3
DD. Adeiladu	82
E. Masnach cyfanwerthu, mân-werthu, atgyweirio	102
F. Gwestai a bwytai	55
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	39
G. Cyfryngu Cyllidol	8
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	92
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	52
I. Addysg	150
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	121
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	65
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	0
N. Sefydliadau a chyrff alldiriogaethol	0

Cymunedau yn Ward Ceulanamaesmawr

Bont-goch

Pentref bach llinellol o tua 20 cartref yw Bont-goch sydd wedi'i leoli 19.3 km (12 milltir) i'r gogledd ddwyrain o Aberystwyth.
Mae yma gymuned wledig fechan mewn ardal ddeniadol dros ben. Nid oes unrhyw wasanaethau yma ac mae pobl yn dibynnu ar eu ceir ar gyfer yr anghenion lleiaf. Gwael yw'r rhwydwaith o ffyrdd sy'n gwasanaethu pentref Bont-goch gan mae ffyrdd bach yn unig sy'n ei gysylltu â Thalybont, Bow Street a Phenrhyncoch.

Gorwedda Bont-goch ar dirlun agored dramatig yng Nghwm Leri Uchaf ar ffin orllewinol yr Ardal Tirwedd Arbennig.

Datblygwyd fferm wynt ar Fynydd Gorddu i'r de orllewin ac mae yna Waith Trin Dŵr ar ymyl y pentref.

Ar wahân i Eglwys Sant Pedr, sydd yn Adeilad Rhestredig graddfa II, a swyddfa bost rhan amser nid oes unrhyw gyfleusterau ym Mhont-goch. Nid oes gwasanaeth bws.

Tal-y-bont

Mae Tal-y-bont yn bentref mawr o tua 310 o dai sydd 11.3 km (7 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth ar yr A487(T).

Lleolir y pentref yng nghydlifiad tri chwm sef Cwm Leri, Cwm Ceulan a Chwm Slaid. Roedd Tal-y-bont yn ganolfan i fwyngloddio ac roedd melin wlân yn gweithio tan yn ddiweddar. Ym 1897 roedd rheilffordd stêm, yr 'Hafen Tramway', yn rhedeg i fyny Cymoedd Leri a Chyneiniog.

Rhannau hynaf y pentref yw Penlôn ac o amgylch y bont, lle mae adeiladau sy'n dyddio yn ôl i'r 18fed ganrif. Mae deg adeilad rhestredig yn Nhal-y-bont.

Bu datblygiadau newydd yng ngogledd y pentref ac ar hyd y ffordd fach sy'n arwain o gyfeiriad yr ysgol tua Bont-goch ac wrth Plas Penpompren. Mae'r datblygiadau newydd hyn ar ddolydd yr Afon Leri sy'n creu lletem las fawr yng nghanol y pentref.

Mae gan Dal-y-bont ystod eithaf eang o wasanaethau a chyfleusterau. Mae yna ysgol gynradd, neuadd bentref a dau addoldy. Yn ogystal â hyn, mae yna swyddfa bost, dwy dafarn, modurdy a busnes argraffu.

Gwêl y gymuned yr angen am safle cyflogi lleol ac am warchod Cymreictod y pentref a dyfodol y gymdeithas.

Mae agosrwydd Tal-y-bont at Aberystwyth, ei boblogrwydd fel lle i fyw a'r lefel y cyfleusterau sydd yno yn golygu bod lle i fwy o ddatblygu. Fodd bynnag, Cymraeg yw prif iaith Tal-y-bont a'r cefn gwlad o'i gwmpas, a dylai unrhyw ddatblygiad pellach roi pwyslais ar gwrdd ag anghenion y gymuned leol a meithrin yr Iaith Gymraeg.

Mae gan Dal-y-bont y potensial i ddenu twristiaeth ac mae'r rhinweddau pensaernïol a chymeriad y gymuned yn deilwng o'i ddynodi'n ardal gadwraeth. Mae'r ardal o amgylch yn ddeniadol iawn ac mae'r llwybr troed cydnabyddedig o'r Borth i Bont-ar-fynach (a arferai gael ei alw'n Lwybr Mal Evans) yn rhedeg trwy'r pentref.

Ffwrnais

Pentref bach deniadol yn Nyffryn Dyfi yw Ffwrnais sydd a thua 25 o gartrefi wedi'i leoli ar yr A487(T) 19.3 km (12 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth a 9.7 km (6 milltir) i'r de o

Fachynlleth. Mae'r pentref ar odre Mynyddoedd y Cambrian ger Cwm Einion. Yma, disgynna Afon Einion yn gyflym i greu rhaeadr hardd.
Defnyddiwyd ei rym yn y gorffennol i droi'r rhod y gweithfeydd haearn, sef tarddiad yr enw Ffwrnais. Bellach mae'r gweithfeydd wedi cael eu hadnewyddu a'u gwarchod gan Cadw ac mae'n atyniad dwristiaeth sy'n agored i'r cyhoedd. Gyferbyn mae maes parcio i'r ffwrnais a mynedfa i Warchodfa Natur RSPB Ynys Hir. I'r gorllewin mae golygfeydd trawiadol yn edrych tua'r Ddyfi a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Fochno ac Ynys Eidiol -Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ynyshir. Tua 0.8 km (0.5 milltir) i'r de orllewin o'r pentref yng Nghoed y Garth mae 15 o dai eraill. Mae'r tai hyn, a adeiladwyd yn y 1950au, ar blotiau mawr gwasgaredig trwy'r coetir sydd bron yn anweledig o'r ffordd fawr. Mae modurdy a siop yn gwasanaethu'r pentref.

Eglwys Fach

Mae Eglwys Fach yn bentref bach deniadol o tua 30 o gartrefi yn Nyffryn Dyfi, 19.2 km (12 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth a 9.6 km (6 milltir) i'r de o Fachynlleth.
Adeiladwyd Eglwys Fach ar hyd yr A487(T) wrth droed llethrau coediog Foel Fach. I'r gorllewin o'r pentref mae golygfeydd hardd o Warchodfa Natur Cenedlaethol Dyfi ac Ynys Eidiol -Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ynyshir. Mae Gwarchodfa RSPB i'r gorllewin o'r pentref.
Yr unig gyfleusterau yn Eglwys Fach yw Eglwys Sant Mihangel sydd yn adeilad rhestredig Graddfa II, neuadd yr eglwys, bwyty a gwesty sydd oddeutu 0.8 km (0.5 milltir) i'r gorllewin o'r pentref.

Tre'r-ddôl

Pentref bychan o oddeutu 50 cartref yw Tre'r-ddôl 16 km (10 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth ger y gyffordd rhwng yr A487(T) a'r B4353 i Ynyslas,.
Lleolir y rhan helaeth o'r pentref i'r dwyrain o linell bresennol yr A487 (T) sydd ddim yn weladwy o'r ffordd fawr. Arferai'r ffordd fynd trwy ganol y pentref. Mae'r rhan hynaf o'r pentref o amgylch Pont Tarddell, sydd yn ddeniadol iawn a heb fawr o draffig.
Adeiladwyd stad fechan o dai cyngor i'r gorllewin o'r briffordd. I'r dwyrain o'r pentref mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Coed Cwm Cletwr, tra ar yr ochr orllewinol mae Gwarchodfa Natur Dyfi a Chors Focho. Y gwasanaethau sydd ar gael yn Nhre'r-ddôl yw addoldy, modurdy, caffi, siop a thafarn. Mae'r pentref ar lwybr bws dyddiol ac mae'r ysgol leol gerllaw ym mhentref Taliesin.

1.4 - Ward Tirymynach

Ward fechan o 1453 hectar yw Ward Tirmynach sydd ar ymyl fwyaf deheuol ardal bontio'r Biosffer.
Mae gan ward Tirymynach boblogaeth o 1888 a 782 o gartrefi gyda dwysedd poblogaeth o 1.30. Y Sector gyhoeddus ac addysg yw'r prif gyflogwyr yn cael eu dilyn yn agos gan y sector gyfanwerthu, mân werthu ac atgyweirio.

Mae 51% o'r boblogaeth (dros dair oed) naill ai yn siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr Iaith Gymraeg a 30% heb unrhyw wybodaeth o'r iaith.

Ganwyd 67% o'r boblogaeth yng Nghymru a 30% yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 0.6% o'r boblogaeth yn enedigol o orllewin a dwyrain Ewrop a 1.3% yn enedigol o Asia.

Gradd Gymdeithasol Fras	**Tirymynach (Personau)**	**%**
Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	1,423	
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	405	28.46
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	454	31.90
C2: Gweithwyt llaw medrus	187	13.14
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	207	14.55
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	170	11.95

Diwydiant Cyflogaeth	**Tirymynach (Personau)**	**%**
Nifer y Bobl	869	
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	32	3.68
B. Pysgota	0	-
C. Mwyngloddio a chwarela	3	
CH. Cynhyrchu	50	5.75
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	6	
DD. Adeiladu	61	7.02
E. Masnach cyfanwerthu, mân werthu, atgyweirio	121	13.92
F. Gwestai a Bwytai	63	7.25
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	36	4.14
G. Cyfryngu Cyllidol	22	2.53
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	68	7.83
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	64	7.36
I. Addysg	153	17.61
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	131	15.07
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	59	6.79
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	0	-
N. Sefydliadau a chyrff alldiriogaethol	0	-

Cymunedau yn Ward Tirymynach

Bow Street

Mae Bow Street wedi'i leoli 4.8 km (3 milltir) i'r gogledd o Aberystwyth ar yr A487(T). O'i gymharu â gweddill Ceredigion mae Bow Street yn bentref mawr iawn gydag ychydig yn llai na 600 o gartrefi. Datblygodd y pentref ar ffurf linellol ac nid oes canol

wedi'i diffinio'n glir iddo. Mae'r rhan helaeth o dai Bow Street wedi'u hadeiladu ers y rhyfel. Mae yma dair stad fawr o dai sef Bryncastell, Maesafallen a Maesceiro. Mae yma hefyd ddwy stad o dai cyngor, sef Tregerddan a Chaerfelin. Yn ddiweddarach datblygwyd stad gan gymdeithas dai.
Mae'r ardal ger y gyffordd â ffordd y Borth, lle mae'r modurdy a'r dafarn, yn cael ei hadnabod fel Rhydypennau ac fe dderbynnir yn gyffredinol y dylai Rhydypennau barhau i fod yn anheddiad ar wahân i Bow Street.

Mae gan Bow Street ystod eithaf eang o wasanaethau a chyfleusterau yn cynnwys siopau, modurdy, tafarndai, dau gapel, eglwysi cyfagos, meddygfa, cartref hen bobl a thai lloches, neuadd bentref, tir hamdden a safleoedd cyflogi. Mae Bow Street yn cael ei wasanaethu'n dda gan fysiau.

Cred trigolion y gellir gwneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, beicio a rhannu ceir gan fod y mwyafrif ohonynt yn teithio i Aberystwyth i weithio. Mae Bow Street yn cael ei wasanaethu'n dda gan fysiau a threnau.

Llangorwen

Pentref bychan o 55 cartref yw Llangorwen wedi'i leoli 3.2 km (2 filltir) i'r gogledd o Aberystwyth yn Nyffryn Clarach.
Datblygodd y pentref o amgylch croesffordd rhwng y B4572 o Aberystwyth i'r Borth a'r ffordd leol rhwng Bow Street a Chlarach ac mae'n weledol bwysig fel y fynedfa i barciau gwyliau Clarach.
Mae rhan hynaf y pentref wedi'i leoli o amgylch y bont a'r eglwys, ac mae'r datblygiadau diweddaraf ger y groesffordd ac ar hyd y ffordd fechan i gyfeiriad Bow Street.
Mae traeth Clarach, sydd filltir i'r gorllewin yn gyrchfan gwyliau poblogaidd gyda nifer o feysydd carafannau mawr.
Ychydig o gyfleusterau sydd yn Llangorwen; un addoldy a neuadd eglwys. Mae gwasanaeth bysiau yn yr haf yn unig. Hefyd yn yr haf mae marchnad Ddydd Sul fawr yn cael ei chynnal ar gyrion y pentref. I'r gorllewin mae Iard Nantllanyn darparu cyfleoedd gwaith lleol ychwanegol.

Teimla'r trigolion yn frwd y dylai unrhyw ddarpariaethau am faes hamddena a llwybrau cerdded a beicio o fewn y pentref fod yn rhan annatod o unrhyw gynlluniau newydd, ac y dylai integredd yr hen ran o'r pentref o amgylch yr eglwys gael ei warchod.

2 - Powys

Sir eang o uwchdiroedd gwledig iawn yw Powys sy'n gorchuddio 2000 milltir sgwâr, sydd oddeutu chwarter maint Cymru. Gyda dim ond un person i bob 10 cyfer (4 hectar) mae Powys yn un o'r awdurdodau teneuaf ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr.
Mae'r sir yn meddu ar dirwedd arbennig; o fynyddoedd dramatig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a bryniau fforest Clud i Fynyddoedd y Berwyn yn y gogledd, ac yn llifo trwy ei golygfeydd godidog mae rhai o afonydd mwyaf ysblennydd Prydain – yr Hafren, Gwy a'r Wysg.

Mae'r economi wedi'i seilio ar amaethyddiaeth a thwristiaeth, gyda sector hunangyflogedig uchel a llawer iawn o fusnesau bychain. Yn ogystal â hyn, rhydd y sector gyhoeddus gyfraniad pwysig i gyfleoedd gwaith y sir.

2.1 - Machynlleth

Machynlleth yw'r anheddiad mwyaf yng ngorllewin y sir, a'r agosaf i'r môr, wedi'i leoli ar orlifdir yr Afon Ddyfi, hanner ffordd rhwng yr aber a'r bryniau. Mae'r boblogaeth o dros 2000 yn ddwyieithog ac annibynnol. Ar y gyffordd, sydd o fewn ardal gadwraeth y dref, y mae'r cloc trawiadol sy'n tra-arglwyddiaethu ar yr hyn sydd yn ei hanfod yn dref bensaernïol Fictoraidd, tra i'r dwyrain y mae Plas Machynlleth, sy'n gyn gartref i'r teulu Londonderry. Parha'r hen draddodiad o ffeiriau/farchnad stryd a gynhelir yn bennaf ar Stryd Maengwyn. Gwasanaethir yr ardal leol gan y farchnad a'r ganolfan fasnachol sy'n rhoi mwy o deimlad o dref farchnad nac o gyrchfan dwristiaeth i Fachynlleth, er bod ymwelwyr yn chwarae rhan bwysig yn economi'r dref.

Mae 58% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr iaith Gymraeg a 32% heb unrhyw wybodaeth o'r iaith.

Ganwyd 72% o'r boblogaeth yng Nghymru a 27% yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 0.13.% o'r boblogaeth yn enedigol o orllewin a dwyrain Ewrop, 0.42% yn enedigol o Affrica a 0.13% yn enedigol o Asia.

Diwydiant Cyflogaeth	**Machynlleth**
Nifer y Bobl	867
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	33
B. Pysgota	0
C. Mwyngloddio a chwarela	0
CH. Cynhyrchu	104
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	0
DD. Adeiladu	78
E. Masnach cyfanwerthu, mân-werthu, atgyweirio	137
F. Gwestai a bwytai	79
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	84
G. Cyfryngu Cyllidol	7
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	79
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	29
I. Addysg	51
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	128
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	58
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	0
N. Sefydliadau a chyrff alldiriogaethol	0

	Machynlleth
Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	1,740
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	218
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	501
C2: Gweithwyr llaw medrus	314
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	342
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	365

2.2 - Cadfarch/Glantwymyn

Mae 62% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr laith Gymraeg a 34% heb unrhyw wybodaeth o'r iaith.

Ganwyd 63% o'r boblogaeth yng Nghymru a 36% yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 0.36% o'r boblogaeth yn enedigol o orllewin a dwyrain Ewrop, a 0.15% yn enedigol o Asia.

Diwydiant Cyflogaeth	**Glantwymyn**
Nifer y Bobl	882
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	147
B. Pysgota	3
C. Mwyngloddio a chwarela	3
CH. Cynhyrchu	87
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	6
DD. Adeiladu	64
E. Masnach cyfanwerthu, mân-werthu, atgyweirio	130
F. Gwestai a bwytai	58
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	45
G. Cyfryngu Cyllidol	8
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	81
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	37
I. Addysg	67
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	83
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	60
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	0
N. Sefydliadau a chyrff alldiriogaethol	3

	Glantwymyn
Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	558
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	76
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	193
C2: Gweithwyr llaw medrus	180
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	109
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	0

2.3 - Llanbrynmair

Mae 55% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn medru naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr Iaith Gymraeg a 40% heb unrhyw wybodaeth o'r iaith.

Ganwyd 57% o'r boblogaeth yng Nghymru a 40% yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 0.93% o'r boblogaeth yn enedigol o orllewin a dwyrain Ewrop, 0.93% yn enedigol o Affrica a 0.31% yn enedigol o Asia.

Diwydiant Cyflogaeth	Llanbrynmair
Nifer y Bobl	440
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	75
B. Pysgota	0
C. Mwyngloddio a chwarela	0
CH. Cynhyrchu	67
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	3
DD. Adeiladu	40
E. Masnach cyfanwerthu, mân-werthu, atgyweirio	69
F. Gwestai a bwytai	18
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	15
G. Cyfryngu Cyllidol	0
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	32
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	11
I. Addysg	40
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	52
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	18
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	0
N. Sefydliadau a chyrff alldiriogaethol	0

	Llanbrynmair
Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	258

	Llanbrynmair
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	27
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	77
C2: Gweithwyr llaw medrus	88
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	66
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	0

3 - Gwynedd

3.1 – Aberdyfi

Mae'r cofnod arforol cyntaf o'r fferi'n croesi'r afon o Aberdyfi yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif ac yng nghyfnod Elisabeth roedd gan Aberdyfi ddiwydiant pysgota nodedig ond gydag ychydig o ddatblygiad. Roedd Aberdyfi yn dal i fwynhau llewyrch y diwydiant pysgota Penwaig yn y 17eg a'r 18fed ganrif, ac yn cynhyrchu mwy o fusnes trwy allforio plwm a gloddiwyd yn lleol. Pan ddaeth y gwaith plwm yn llai proffidiol yn y 19eg ganrif datblygodd y porthladd i fanteisio ar y diwydiant llechi oedd yn tyfu. Daeth y bad achub cyntaf i Aberdyfi ym 1837. Gyda dirywiad y diwydiant adeiladu llongau yn hwyr yn y 19eg ganrif, lleihad yn nifer y penwaig a dirywiad yn yr economi leol a arweniai at y dirwasgiad, a'r Rhyfel Byd Cyntaf daeth diwedd ar Aberdyfi fel porthladd. Ers hynny tyfodd Aberdyfi fel cyrchfan dwristiaeth a chanolfan gweithgareddau hamddena'r môr.

Gwasgwyd Aberdyfi a'i gymydog agos, sef Penhelig rhwng y mynydd a'r môr ar ochr ogleddol yr aber. Datblygodd fel porthladd llechi bychan cyn tyfu'n gyrchfan wyliau Fictoriaid ac Edwardaidd, cymeriad y mae'n parhau i'w gyflwyno. Mae ei ficrohinsawdd, ei draeth a'i harbwr yn denu ymwelwyr a phobl i ymddeol. Mae'r nifer fawr o dai haf yn creu amrywiaeth dymhorol nodedig i'w boblogaeth. Yn yr 20fed ganrif daeth enw'r dref i fod yn gyfystyr a chanolfan Outward Bound Aberdyfi,un o'r rhai cynharaf i gael eu sefydlu ym Mhrydain.
Mae gan Aberdyfi le arwyddocaol yn hanes Cymru fel man cyfarfod senedd Llywelyn Fawr ym 1216 ac mae ei gysylltiad â'r gân boblogaidd Clychau Aberdyfi, sy'n cyfeirio at y chwedl o foddi teyrnas Gwyddno Garanhir ym Mae Ceredigion hyd yn oed yn gryfach.

Mae pentrefi godre Gwynedd, Corris ac Aberllefenni yn unigryw yn Nyffryn Dyfi. Mae eu traddodiad o chwarela a chloddio yn parhau i gyfleu awyrgylch ffisegol a chymdeithasol cymuned ddiwydiannol. Parhaodd y chwarel lechi fasnachol ddiweddaraf i weithio tan yr 20fed ganrif ac roedd y cymunedau hyn yn grynhoad o gymdeithas Gymraeg ei hiaith, ryddfrydol ac anghydffurfiol rhan olaf yr 19eg a hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Wedi'i leoli mor agos erbyn hyn i Ganolfan y Dechnoleg Amgen, sydd wedi'i datblygu yn un o'r chwareli, mae Corris bellach yn gartref i lawer o fewnfudwyr ecolegol cydwybodol hefyd.

Mae pentref Pennal sy'n wynebu'r aber yn enwog fel safle'r cynulliad a gynhaliwyd gan Owain Glyndŵr ym 1406 lle yr ysgrifennwyd y llythyr enwog i Siarl VI o Ffrainc.

Yn Ward Aberdyfi/Pennal mae 43.9% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn medru naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr Iaith Gymraeg a 47.66% heb unrhyw wybodaeth o'r iaith.

Mae 48.8% wedi eu geni yng Nghymru a 49.6% wedi'u geni yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Ganwyd 0.62% o'r boblogaeth yng ngorllewin a dwyrain Ewrop a 0.27% yn Asia.

Diwydiant Cyflogaeth	**Aberdyfi**
Nifer y Bobl	468
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	23
B. Pysgota	0
C. Mwyngloddio a chwarela	0
CH. Cynhyrchu	45
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	0
DD. Adeiladu	28
E. Masnach cyfanwerthu, mân-werthu, atgyweirio	71
F. Gwestai a bwytai	91
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	16
G. Cyfryngu Cyllidol	6
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	26
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	17
I. Addysg	42
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	39
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	64
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	0
N. Sefydliadau a chyrff alldiriogaethol	0

	Aberdyfi
Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	974
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	194
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	350
C2: Gweithwyr llaw medrus	136
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	116
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	178

3.2 – Corris/Mawddwy

Yn Ward Corris/Mawddwy mae 61.6% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn medru naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu yn yr Iaith Gymraeg a 34% heb unrhyw wybodaeth o'r iaith.

Ganwyd 55.3% o'r boblogaeth yng Nghymru a 42.3% yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol. Mae 1.6% o'r boblogaeth yn enedigol o orllewin a dwyrain Ewrop, 0.25% yn enedigol o Affrica a 0.49% yn enedigol o Asia.

	Corris/Mawddwy
Diwydiant Cyflogaeth	502
Nifer y Bobl	44
A. Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth	3
B. Pysgota	4
C. Mwyngloddio a chwarela	42
CH. Cynhyrchu	4
D. Cyflenwad trydan, nwy a dŵr	48
DD. Adeiladu	74
E. Masnach cyfanwerthu, mân-werthu, atgyweirio	45
F. Gwestai a bwytai	26
FF. Cludiant, storio a chyfathrebu	3
G. Cyfryngu Cyllidol	33
NG. Ystâd real, rhentu a gweithgareddau busnes	29
H. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol	48
I. Addysg	74
L. Gwaith iechyd a chymdeithasol	22
LL. Gweithgareddau cymunedol, cymdeithasol a gwasanaethau personol eraill	0
M. Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir	3

	Corris/Mawddwy
Pobl 16 oed a mwy mewn cartrefi	983
AB: Rheolaeth uwch a chanolradd / gweinyddol / proffesiynol	162
C1: Goruchwylio, clerigol, rheolaeth iau / gweinyddol / proffesiynol	267
C2: Gweithwyr llaw medrus	227
CH: Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft	165
D: Ar fudd-dal gwladol, di-waith, gweithwyr y raddfa isaf	162